Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cynllun Blynyddol 2025-26

Mai 2025

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


Croeso ... 2
Rhagair y Cadeirydd ... 4
Rhagair y Prif Weithredwr ... 6
Ein gweledigaeth ... 8
Ein cenhedaeth ... 9
Amdanom ... 10
Ein gwerthoedd ... 13
Ein strategaeth ... 14
Y chwe egwyddor ... 15
Ein 3 nod ... 17
    Datblygu ... 19
    Cysylltu ... 22
    Hybu ... 26
Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi ... 28
Mesur ein llwyddiant ... 29
Rhestr termau ... 37


## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a hygyrch a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

# Croeso



*Light up the Night*, Artis Community



# Rhagair y Cadeirydd

Dwi'n falch iawn o gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025/26. Mae'n adlewyrchu ein huchelgais i integreiddio'r celfyddydau i fywyd pawb yng Nghymru gan ein cysylltu â'n gilydd, cyfoethogi ein bywyd a'n hysbrydoli nawr ac o ran cenedlaethau'r dyfodol.

Ar sail fy mhrofiad byw dwi'n dweud mai'r celfyddydau a diwylliant sy'n gwneud gwahaniaeth i fywyd pobl. Dwi hefyd wedi gweld yn broffesiynol mor rymus yw'r gwahaniaeth yn ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.

Drwy gydol y cynllun, rydym wedi ymrwymo i feithrin awyrgylch lle mae creadigrwydd yn gallu ffynnu, ni waeth beth yw'n cefndir neu'n hamgylchiadau.

Rydym wedi ymrwymo i ehangu hygyrchedd, meithrin talent, datblygu gwaith o safon a dathlu'r celfyddydau a diwylliant fel offer grymus i wireddu cymdeithas gydlynus, datblygiad personol a chynnydd cymdeithasol.

Ein ffocws strategol yw creu cymuned gelfyddydol wydn a hygyrch sy'n gallu datrys anawsterau'r dyfodol a gwneud gwahaniaeth.



Carnival Bioamrywiaeth, Catrin Doyle a Lucie Powell, NATURponty (Llun: Lucy Purrington)

Mae gan y cynllun dri nod craidd sy'n arwain ein gwaith: datblygu, cysylltu a hybu.

Yn ogystal â'r nodau, mae'r cynllun yn ymrwymo i gynhwysiant, gweithredu er yr hinsawdd, y Gymraeg a'r celfyddydau yn cyrraedd pob maes yn ein cymdeithas. Byddant yn cyrraedd addysg gyda'n rhaglen Dysgu Creadigol yn y Celfyddydau, iechyd gyda'r Celfyddydau ac Iechyd a rhyngwladol gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Ffurfio partneriaethau a chydweithio sydd wrth wraidd ein gwaith. Byddwn yn cydweithio â'r sector celfyddydol ehangach, adrannau o'r llywodraeth, grwpiau cymunedol, artistiaid a rhanddeiliaid eraill. Ein nod yw creu ecosystem gelfyddydol ffyniannus sy'n ymateb i'n hanghenion heddiw ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn grediniol bod gan y celfyddydau y grym i drawsnewid ein bywyd. Drwy'r cynllun uchelgeisiol, ein nod yw sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt a chael budd o'u cyfoeth.

**Maggie Russell**
**Cadeirydd**



# Rhagair y Prif Weithredwr

Mae Cynllun Blynyddol 2025/26 yn un uchelgeisiol a fydd yn cyflawni ein hymrwymiad i feithrin creadigrwydd, cynhwysiant a chynaliadwyedd yn y celfyddydau.

Ein gweledigaeth yw gwneud y celfyddydau yn rhan annatod o fywyd bob dydd gan ein cysylltu â'n gilydd, gwella ein lles ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Rydym am greu awyrgylch lle mae'r celfyddydau'n gallu ffynnu a lle mae pawb yn cael y cyfle i ymgysylltu â'r celfyddydau ac elwa ohonynt.

Mae gan y cynllun dri nod craidd: datblygu, cysylltu a hybu. Eu pwrpas yw mynd i'r afael ag anghenion presennol a thymor hir y sector gan sicrhau effaith a gwaddol i'r dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i wella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion cynaliadwy'r celfyddydau. Bydd yn cynnwys lansio mentrau ariannu newydd, cefnogi rhaglenni celfyddydol a gwella cyfleoedd a phrofiadau drwy bartneriaethau â rhanddeiliaid gan gynnwys sefydliadau, grwpiau cymunedol, byrddau iechyd ac ysgolion. Rydym am ddatblygu talent i sicrhau y bydd artistiaid o bob cefndir yn gallu creu gyrfa ac arferion cynaliadwy yn y celfyddydau.




Amped Up Academy, CDCCymru
(Llun: Kirsten McTernan)

Cydweithio sydd wrth wraidd ein strategaeth. Byddwn yn eiriol dros y celfyddydau drwy bartneriaethau strategol a rhyngwladol a thargedu ein cyfathrebu. Ein nod yw gwella cyfleoedd i'n pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau drwy symleiddio ymgeisio am grantiau, meithrin partneriaethau ac ymgysylltu â chymunedau. Drwy gysylltu â grwpiau amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, rydym yn sicrhau bod y celfyddydau'n hygyrch ac yn berthnasol i bawb.

Drwy fuddsoddi mewn seilwaith, cefnogi prosiectau creadigol a gwella hygyrchedd, ein nod yw creu cymuned gelfyddydol wytnach a mwy cynhwysol. Rydym yn canolbwyntio ar gydraddoldeb, ymgysylltiad, cyfiawnder hinsawdd a gwytnwch i sicrhau bod y celfyddydau yn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd awyrgylchol.

Byddwn yn gwerthuso ar sail canlyniadau, casglu data gwell ac adrodd yn rheolaidd i ddangos cynnydd a llywio ein strategaeth. Drwy rannu ein cyflawniadau a'r gwersi rydym yn eu dysgu, ein nod yw meithrin diwylliant o wella'n barhaus a gwell cydweithio.

Mae gan y celfyddydau y grym i gyfoethogi bywyd, cysylltu cymunedau a chreu newid. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r camau cynnar yn ein Strategaeth hirdymor i gyrraedd y nod.

**Dafydd Rhys**
**Prif Weithredwr**

# Ein gweledigaeth

Mae'r celfyddydau'n rhan o fywyd beunyddiol pobl Cymru. Maent yn ein cysylltu â'n gilydd, yn rhan annatod o'n lles ac yn ein hysbrydoli am genedlaethau i ddod.



Jukebox Collective

# Ein cenhedaeth

Swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yw creu sefyllfa yn y maes lle mae gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer yn ffynnu a lle mae pawb yn gallu profi'r celfyddydau.

Rydym am weld Cymru o uchelgais a thegwch sy'n creu celfyddydau cyffrous yn rhan annatod o'n hiechyd a'n lles sy'n berthnasol i bob cymuned. Bydd ein lleisiau'n ysbrydoli'r byd a byddwn yn cael ein hysbrydoli gan y byd o'n cwmpas.



Aelodau Cyswllt Ifanc CDCCymru

# Amdanom

Elusen gofrestredig ydym sydd wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol ac sy'n cael arian a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Ni yw corff cyhoeddus swyddogol sy'n ariannu a datblygu'r celfyddydau. Bob dydd, mae pobl ledled y wlad yn mwynhau gweithgareddau celfyddydol ac yn cymryd rhan ynddynt. Rydym yn cefnogi artistiaid a sefydliadau i greu gwaith a chyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Mae ein gwaith yn bosibl drwy ddefnyddio'r arian cyhoeddus rydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru ac fel achos da i'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn cefnogi cymuned gelfyddydol fywiog ledled Cymru (sydd hefyd yn ein cefnogi ni) sy'n profi bod y celfyddydau'n gallu gwneud gwahaniaeth i'n lles gan ein cysylltu â'n gilydd a'n hysbrydoli i greu gwlad decach a mwy cyfartal gan ddymchwel rhwystrau i gyflawni ein potensial.

Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, rydym yn cefnogi a hybu cyfraniad pwysig y celfyddydau at Gymru, ein hiechyd a'r byd yn ddiwylliannol, cymdeithasol, addysgol, awyrgylchol, economaidd. Rydym yn ei wneud drwy fuddsoddi yn artistiaid, sefydliadau a chymunedau Cymru.



Ysgol Haf Ballet Ryngwladol Cymru
(Llun: Sian Trenberth Photography)

Mae ein gwaith yn gwireddu amcanion Lles Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru a'i **Blaenoriaethau Diwylliant** diweddar:

**Blaenoriaeth 1: diwylliant sy'n dod â phobl at ei gilydd**

1.1 Cysylltu â phobl a chymunedau – cynhwysiant, amrywiaeth a hygyrchedd a chefnogi hawliau diwylliannol.

1.2 Cysylltu drwy ymdeimlad o le.

1.3 Cysylltu â phlant a phobl ifanc a phontio'r cenedlaethau.

1.4 Cysylltu drwy les.

**Blaenoriaeth 2: dathlu diwylliant ein cenedl**

2.1 Cenedl ddwyieithog ac amlieithog.

2.2 Hybu Cymru i'r byd.

2.3 Dathlu diwylliant.

**Blaenoriaeth 3: diwylliant gwydn a chynaliadwy**

3.1 Gofalu am ein lleoedd a'n casgliadau diwylliannol.

3.2 Cydweithio strategol a phartneriaethau deinamig.

3.3 Grym digidol.

3.4 Buddsoddi mewn ymchwil.

3.5 Gweithlu'r sector diwylliannol.

3.6 Diwylliant a datblygu cynaliadwy.

**Mae'r blaenoriaethau wedi'u cysylltu â'n tasgau allweddol yn y cynllun yma.**

## Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r nodau yma y mae'r 'pum ffordd o weithio' yn eu llywio sy'n diffinio ein dull o weithio:

**Tymor hir**

Mae'r cynllun yn nodi ein tasgau allweddol wrth gyflawni ein Fframwaith Strategol 10 mlynedd. Byddwn yn ystyried hefyd raglenni gwaith eraill yn unol â'r cynllun gan gynnwys gwireddu ein hymrwymiadau strategol a ddaeth o Adolygiad Buddsoddi 2023 a Blaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru. Hefyd bydd effaith y cynlluniau gweithredu ategol am gyfiawnder hinsawdd, y Gymraeg, rhyngwladol a chydraddoldeb strategol yn cefnogi cynlluniau tymor hir Llywodraeth Cymru gan gynnwys Carbon Net Sero, Cymraeg 2050, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, Cynllun LHDTC+ a'i Strategaeth Ryngwladol.

**Integreiddio**

Mae'r chwe egwyddor a ddaeth drwy broses ymgynghori'r Adolygiad Buddsoddi'n gysylltiedig â'i gilydd ac yn cefnogi'r nodau Llesiant (gweler y diagram isod).

**Cydweithio**

Byddwn yn cydweithio â nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector y celfyddydau a diwylliant a'r tu hwnt. Mae ein prif bartneriaid yn cynnwys sawl adran o Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sefydliadau partner, artistiaid a gweithwyr llawrydd creadigol, cynulleidfaoedd a'r sefydliadau celfyddydol yr ydym yn eu hariannu.

**Cyfranogi**

Bydd ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â'r sector ehangach a'r cyhoedd, yn enwedig y grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. Bydd dadansoddi data, ymchwil, adborth a gwerthusiadau'n ganolog i'n cynllunio a datblygu yn y dyfodol.

**Atal**

Byddwn yn parhau i feddwl am sut rydym yn cefnogi a datblygu'r celfyddydau i'w gwella. Drwy gysylltu â'n hartistiaid, ein sefydliadau, ein cynulleidfaoedd a'n cymunedau, byddwn yn defnyddio grym y celfyddydau i ddatrys anghydraddoldeb ac atal niwed i'n pobl a'n planed. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar wella canlyniadau a dymchwel rhwystrau i gyflawni ein potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd i greu polisi a gwasanaethau gwell.

# Ein gwerthoedd

**Uchelgais**

Sicrhau bod y celfyddydau rydym yn eu hariannu'n cyfoethogi ein gwlad ac adlewyrchu ein hanghenion a'n dyheadau gan beri bod pethau gwych yn digwydd ar bob lefel, creu effaith leol ac atseinio'n fyd-eang.

**Parch**

Trin pawb – cleientiaid, rhanddeiliaid, gweithwyr, y sector a'r cyhoedd – ag urddas a gwerth, ni waeth beth yw cefndir, statws, oed neu gredo pobl gan gydnabod eu cyfraniadau unigryw at y celfyddydau a diwylliant yn lleol a byd-eang.

**Cyfrifoldeb**

Gweithio'n foesegol a thryloyw, bod yn atebol am ein penderfyniadau a'u canlyniadau, gwerthuso a dysgu o'n gwaith i wneud gwahaniaeth a meithrin diwylliant o ymddiried a gwell cyfleoedd i bawb.



*The Welsh Dragon*, Theatr Iolo
(Llun: Kirsten McTernan)

# Ein strategaeth

Roeddem wedi datblygu Strategaeth 10 mlynedd yn Rhagfyr 2023 sy'n cyd-fynd yn agos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn cysylltu â 4 blaenoriaeth Llywodraeth Cymru: Cymru iachach; swyddi a thwf gwyrdd; cyfle i bob teulu; cysylltu cymunedau. Mae ein strategaeth yn fframwaith hyblyg i ymateb i'r hyn sydd ei angen yn awr ac ymdopi â datblygiadau a newidiadau yn y dyfodol. Mae'n edrych ar y cenedlaethau sydd i ddod.

Er mwyn cyflawni hyn oll, byddwn yn datblygu ein strategaeth ymhellach yn gyson drwy gydol y 10 mlynedd. Byddwn yn ei wneud drwy ymgynghori'n rheolaidd a chasglu adborth a gwerthusiadau. Byddwch yn clywed am y newidiadau drwy'n cynlluniau blynyddol a'n strategaethau cyfathrebu.

6 egwyddor ein Hadolygiad Buddsoddi sy'n llunio ein strategaeth. Maent yn sail i'n holl waith yn y dyfodol ac yn cyd-fynd â'r 7 nod lles.



# Y chwe egwyddor

**Creadigrwydd**

Mae gan yr holl gelfyddydau y grym i'n cysylltu â'n gilydd a'n deall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae'n herio ein meddwl a sbarduno ein dychymyg. Mae'n dod â llawenydd a gobaith i bobl yn y gynulleidfa a'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae creadigrwydd ym mhopeth a phawb rydym yn eu hariannu. Rydym am weld ystod eang o'r celfyddydau ac o ymarferion creadigol sydd wedi'u datblygu gyda golwg ar ein cynulleidfaoedd a'n cymunedau gan annog arloesedd artistig o safon.

**Cydraddoldeb ac ymgysylltu**

Mae gan bawb yr hawl i fwynhau ein diwylliant, ein hiaith, ein tirwedd a'n celf a chymryd rhan ynddynt.

Dylai'n celfyddydau a'n diwylliant adlewyrchu bywyd pawb. Maent yn perthyn i bawb.

Byddwn yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth brofi'r celfyddydau. Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth lawn o bobl amrywiol yn y gweithlu – yn arweinwyr, penderfynwyr, crewyr, ymwelwyr, cyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.

**Y Gymraeg**

Ein nod yw rhoi'r Gymraeg a'i diwylliant wrth wraidd creadigrwydd. Mae'n perthyn i bawb. Mae'n dathlu creadigrwydd ac ysbrydoli cysylltiadau cymunedol.

Byddwn yn annog cyfleoedd creadigol sy'n cyfrannu at dwf yn y defnydd o'r Gymraeg a pherchnogaeth pobl arni. Byddwn yn cefnogi'r sector i roi'r Gymraeg wrth wraidd creadigrwydd a chymunedau drwy ofyn am beth sydd ei angen, gwrando ar yr atebion a dysgu oddi wrthynt. Byddwn yn cydweithio i gynyddu gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd creadigol yn yr iaith.


Ali Goolyad
(Llun: Gavin Porter)

## Cyfiawnder hinsawdd

Rydym wedi ymrwymo i hybu rhan bwysig y celfyddydau wrth drawsnewid ein cymdeithas a'n heconomi i ddatrys yr argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn ymwneud â rhagor na'r effaith ar ein hinsawdd. Mae'n cynnwys sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a brwydro yn erbyn anghydraddoldeb.

Byddwn yn cefnogi'r sector i ddatblygu gwaith sy'n ysbrydoli pobl i weithredu dros gyfiawnder hinsawdd a chreu sector sy'n gynaliadwy a chyfrifol yn fyd-eang ar sail cyfiawnder cymdeithasol.

## Datblygu talent

Byddwn yn creu awyrgylch i artistiaid allu ffynnu.

Bydd hyn yn digwydd drwy lwybrau i bobl o bob cefndir ddatblygu gyrfa gynaliadwy, sgiliau a medrau arwain.

Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cyfleoedd gwaith teg ar gael a gwell canlyniadau i'n pobl yn awr ac yn y dyfodol.

## Trawsnewid

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd newydd gan weithio'n hyblyg a hyderus i ymateb yn well i'r newidiadau sy'n digwydd o'n cwmpas. Byddwn yn mentro, magu gwytnwch ac ymateb i newid wrth barhau i fod yn berthnasol i'n pobl a'n cymunedau. Rydym am ddod o hyd i'r cyfleoedd gorau i'r celfyddydau a dysgu o wersi'r gorffennol a rhannu'r hyn sy'n gweithio orau.

# Ein 3 nod

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar y 3 nod sy'n adlewyrchu cylch gwaith gwreiddiol ein Siarter Frenhinol a nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol:

| | |
|---|---|
| **Datblygu** | Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarferion celfyddydol cynaliadwy. |
| **Cysylltu** | Cydweithio i wella'r cyfle i'n pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau. |
| **Hybu** | Cydweithio â phartneriaid i hybu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. |

Mae'r cynllun blynyddol yn trafod blwyddyn 2 o'n strategaeth 10 mlynedd. Rydym wedi nodi tasgau allweddol ar draws ein tri nod a fydd yn cefnogi'r sector a'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau. Bydd y tasgau dan 6 maes gweithgarwch:

- datblygu'r celfyddydau;
- moderneiddio ein gwaith mewnol;
- symleiddio sut rydym yn rhoi grantiau;
- cyflawni ein hymyriadau strategol i gefnogi'r sector;
- amrywiaeth a chynhwysiant;
- eiriol a dylanwadu.

Byddant yn mynd i'r afael ag anghenion y sector a'n cymunedau gan fanteisio ar wersi'r gorffennol i sicrhau effaith a gwaddol yn yr hirdymor. Mae'r tasgau allweddol ar gyfer dilyniant 2024/25 yn y ddogfen.

# Geirfa'r eiconau


Mae'r 6 egwyddor yn cysylltu â'r nodau sy'n cefnogi'r amcanion Blaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru.

Dyma eiconau o'r cysylltiadau:

## Chwe egwyddor



Creadigrwydd



Cydraddoldeb ac Ymgysylltu




Y Gymraeg



Cyfiawnder Hinsawdd



Datblygu Talent



Trawsnewid

## Blaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru



- **Blaenoriaeth 1:** Diwylliant sy'n dod â phobl at ei gilydd
- **Blaenoriaeth 2:** Dathlu diwylliant ein cenedl
- **Blaenoriaeth 3:** Diwylliant gwydn a chynaliadwy



Carnival Bioamrywiaeth, Catrin Doyle & Lucie Powell, NATURponty (Llun: Lucy Purrington)

# Datblygu

Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer cynaliadwy yn y celfyddydau.

**Maes** Datblygu'r celfyddydau

**Cysylltiadau**



1.1 Pobl a chymunedau
1.2 Ymdeimlad o le
1.3 Pobl ifanc
1.4 Iechyd/lles
3.1 Lleoedd/casgliadau diwylliannol
3.5 Gweithlu'r sector diwylliant

**Byddwn yn**

- Datblygu a lansio, gydag arian ychwanegol Llywodraeth Cymru, gynllun Cyfalaf a rhaglen gefnogi newydd.
- Cydweithio â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a chynghorau celfyddydau Prydain ar raglen y Celfyddydau Trochi a chyfleoedd cysylltiedig.
- Cyflawni partneriaeth blwyddyn 1 o 3 blynedd gyda Creative United i ddarparu Ein Celf a fydd yn cynyddu gwerthiant gwaith celf weledol a chymhwysol i ddiogelu a chynnal gyrfa a bywoliaeth artistiaid.
- Cynyddu Oriel Gelf Gyfoes i Gymru gan Lywodraeth Cymru.
- Archwilio, datblygu a chynnal rhaglenni sy'n cefnogi cymunedau i lunio a chynllunio eu profiadau celfyddydol, yn unol â'n hymrwymiad i ddemocratiaeth ddiwylliannol.
- Hybu mentrau fel Noson Allan sydd o fudd i gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli yn arbennig mewn ardaloedd o dlodi.
- Gorffen a gwerthuso cam 3 o Ddysgu Creadigol a lansio rhaglen newydd, Dysgu Creadigol Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, sectorau addysg a'r celfyddydau i gyflwyno rhaglen waith newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu creadigrwydd a chynllunio cwricwlwm. Bydd yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i ddisgyblion o ran llythrennedd, arloesi ac iechyd a lles. Bydd plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o dlodi a'r rhai sy'n wynebu problemau yn eu bywyd yn parhau'n flaenoriaeth.
- Datblygu a lansio Creu sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc arwain ar greu a chynhyrchu eu celf.
- Mewn partneriaeth â Chydffederasiwn y GIG a Byrddau Iechyd a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, parhau i ddatblygu ein rhaglen Celfyddydau, Iechyd a Lles.
- Adeiladu ar ein partneriaeth â Sefydliad Baring i gyflwyno rhaglen 4 blynedd am hybu celf i wella iechyd meddwl.
- Gwerthuso Celfyddyd a Chrebwyll.

**Maes** Moderneiddio ein gwaith mewnol

**Cysylltiadau**



1.4 Iechyd/lles
3.3 Grym digidol
3.4 Buddsoddi mewn ymchwil
3.6 Datblygu cynaliadwy

**Byddwn yn**

- Datblygu fframwaith gwerthuso sy'n seiliedig ar ganlyniadau y bydd modd eu cymhwyso i bob maes o'n gwaith gan gynnwys prosiectau a grantiau fel y fframwaith Gwerthuso Lles Rhyngwladol.
- Gwella data ar gyfer adroddiadau cyfredol i lywio ein penderfyniadau.
- Adolygu a diweddaru ein gwefan i wella mynediad at ein gwybodaeth a'n hadnoddau.
- Gwella ein systemau gweithio mewnol i ddod yn fwy effeithiol gan gynnwys ystyried deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio.
- Gwella ein cyfathrebu mewnol.
- Trosglwyddo rheolaeth o'n dogfennau a'n cofnodion i gynnal ein heffeithiolrwydd, ein cymorth a'n trefniadau diogelwch.
- Adolygu a diweddaru adnoddau staff i'w gwneud yn effeithiol a rhoi'r cymorth angenrheidiol i staff.
- Cyflwyno mentrau sy'n cefnogi lles ein staff.



Dirty Protest
(Llun: Fez)

# Cysylltu

Cydweithio â'n gilydd i wella'r cyfleoedd i bobl Cymru brofi a mwynhau'r celfyddydau.

**Maes** Symleiddio ein grantiau

**Cysylltiadau**

1.1 Pobl a chymunedau
3.5 Gweithlu'r sector diwylliant

**Byddwn yn**

- Diwygio ein monitro a'n hadrodd am gynnydd ein sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn yn ôl blwyddyn 2 o'r ymrwymiadau yn eu cytundeb ariannu.
- Adolygu, symleiddio ac ail-lansio ein cyfleoedd grant a'n proses ymgeisio.

**Maes** Cyflawni ein hymyriadau strategol i gefnogi'r sector

**Cysylltiadau**

1.1 Pobl a chymunedau
1.3 Pobl ifanc
2.1 Dwyieithog ac amlieithog
2.2 Dathlu diwylliant
3.5 Gweithlu'r sector diwylliant
3.6 Datblygu cynaliadwy

**Byddwn yn**

- Buddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi, datblygu sgiliau a meithrin gallu i gefnogi sefydliadau ac unigolion yn eu hymrwymiadau cyfiawnder hinsawdd.
- Creu cyfleoedd mentora a hyfforddi i gydweithio â'r sector i wireddu ein hymrwymiadau Cymraeg gan gydlynu'r gwaith i nodi cyfleoedd i gydweithio.
- Datblygu methodoleg dysgu o'r prosiect Llais y Lle i gydweithio â chymunedau a gweithredu'r gwersi mewn rhaglenni eraill.

## Cyflawni ein hymyriadau strategol i gefnogi'r sector (parhad)

- Gweithredu argymhellion 2025/26 yn sgil yr adolygiad o'r Theatr Saesneg yng Nghymru.
- Gweithredu argymhellion 2025/26 yn sgil yr adolygiad o'r Ddawns yng Nghymru.
- Gweithredu argymhellion 2025/26 yn sgil yr adolygiad o Gerddoriaeth Draddodiadol Cymru.
- Datblygu adnoddau cymorth busnes a hyfforddiant i sefydliadau er trawsnewid a gwytnwch.
- Dechrau adolygu sector y celfyddydau awyr agored yn 2025/26 ac ystyried cymorth strategol.
- Dechrau adolygu'r cymorth strategol i'r sector celfyddydau gweledol yn 2025/26.
- Cefnogi Craidd (RAMPiau Cymru gynt) i greu newid ystyrlon a chynaliadwy i wella cynrychiolaeth pobl anabl ar draws sector prif ffrwd y theatr yng Nghymru.
- Gweithio gyda phartneriaid fel Cymru Greadigol ac undebau llafur creadigol i nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau yn y sector lle mae mwyaf eu hangen a diogelu a chynnal gyrfa a bywoliaeth pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau neu sy'n dymuno gweithio ynddynt.
- Parhau â'n partneriaethau i gefnogi mathau o gerddoriaeth a chrewyr sydd wedi'u tanariannu, fel Power Up! ac Accelerator gyda Sefydliad y PRS a Gorwelion, BBC Cymru.
- Datblygu sgyrsiau a rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i ddarparu cymorth a mentora gan bobl eraill yn y sector i edrych ar y ffordd orau o rannu arferion.
- Datblygu ein perthynas ag awdurdodau lleol i weld sut mae modd cydweithio i roi'r celfyddydau gorau i bawb, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cael llai o'n harian a lle rydym yn cyd-fuddsoddi mewn sefydliadau neu raglenni (fel lleoliadau).
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn natblygiad ein strategaethau, ein rhaglenni a'n penderfyniadau.

**Maes** Amrywiaeth a chynhwysiant

**Cysylltiadau**

1.1 Cymunedau a phobl
1.2 Ymdeimlad o le
1.3 Pobl ifanc
2.1 Dwyieithog ac amlieithog
2.2 Hybu Cymru i'r byd

**Byddwn yn**

- Cyflawni ymrwymiadau blwyddyn 1 o'n cynllun gweithredu Cymraeg.
- Cyhoeddi a chyflawni ymrwymiadau blwyddyn 1 o'n cynllun gweithredu rhyngwladol gan gynnwys cytundeb â Chysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys datblygu a gweithredu cynllun gweithredu blwyddyn 1 o Gymru yn Fenis.
- Cyflawni ymrwymiadau blwyddyn 1 o'n cynllun gweithredu cydraddoldeb strategol wedi'i ategu gan y Model Cymdeithasol o Anabledd gan gynnwys camau gweithredu i ddymchwel rhwystrau i bobl gyflawni eu potensial ac argymhellion ac ymrwymiadau yng nghynllun gweithredu gwrth-hiliol Cymru a chynllun LHDTC+ Llywodraeth Cymru.
- Datblygu gwaddol i barhau â'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu yn ein cydgynllun gweithredu ehangu ymgysylltiad.
- Datblygu a chyflawni ein cynlluniau i gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau a'u profi y tu allan i'r ysgol gan gynnwys drwy fentrau fel Hyrwyddwyr Ifanc a chan ganolbwyntio ar y rhai sy'n byw mewn tlodi.
- Gwerthuso ein cynllun Cydweithwyr a galw am rai newydd i sicrhau cynnwys pobl sydd wedi'u tangynrychioli a'r rhai sydd â phrofiadau byw yn ein holl waith a'n penderfyniadau am grantiau.
- Archwilio a datblygu cyfle prentisiaeth i berson ifanc yn y Cyngor.
- Cynyddu cyfleoedd hyfforddi a mentora i staff drwy gyfrwng y Gymraeg, cynyddu dealltwriaeth o gyd-destun y Gymraeg a'i chreadigrwydd a rhoi mwy o gefnogaeth i staff i ddysgu'r iaith.

# Hybu

Cydweithio â phartneriaid i hybu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.



Kizzy Crawford, Gŵyl Tawe

**Maes** Eiriol a dylanwadu

**Cysylltiadau**

1.1 Pobl a chymunedau
1.2 Ymdeimlad o le
2.1 Dwyieithog ac amlieithog
2.2 Hyrwyddo Cymru i'r byd
3.1 Gofalu am ein lleoedd diwylliannol
3.6 Datblygu cynaliadwy

**Byddwn yn**

- Cyflawni ymrwymiadau blwyddyn 1 o'n cynllun gweithredu cyfiawnder hinsawdd a'r celfyddydau.
- Eiriol dros y celfyddydau drwy ddeialog gyson â'n rhanddeiliaid, y sector, grwpiau a chymunedau a chyhoeddi ystadegau'r sector mewn ffordd sy'n hwyluso deialog a chyflwyno tystiolaeth o werth y celfyddydau.
- Cynyddu datblygiad cyfalaf Theatr Clwyd.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Celfyddydau Prydain ac Iwerddon ar fentrau penodol gan gynnwys All In.
- Datblygu cysylltiadau ag arianwyr eraill i gael rhagor o fuddsoddiad yn y celfyddydau.
- Cyfrannu at ddatblygu Blaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru.
- Gweithio'n fwy mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Adfywio partneriaethau a cheisio rhai newydd i ddatblygu a hybu meysydd o flaenoriaeth drwy ragor o fuddsoddi ac adnoddau.
- Gwireddu'r ymrwymiadau yn y cytundeb partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig.
- Dyrannu adnoddau i godi proffil sector y celfyddydau yma ac yn rhyngwladol.
- Cyhoeddi straeon i dynnu sylw at gynnydd ein hamcanion a hybu arferion da.
- Buddsoddi yn ein cyfathrebu a'n brand i symleiddio ein neges a chynyddu ein heiriolaeth.


Beth mae'r Cynllun hwn yn ei olygu i chi
Hoffwn fynychu'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt a gweithio yn y maes
Bydd rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol a fydd o fudd i'm hiechyd corfforol a meddyliol
Bydd fy ngweithgarwch celfyddydol ar ôl y pandemig wedi'i warchod ac yn well
Bydd strategaethau i gael rhagor o gyfleoedd arwain a datblygu gyrfa yn y celfyddydau i mi
Mae fy marn o bwys a bydd pobl yn gwrando arnaf
Ni phrofaf anfanteision oherwydd fy amgylchiadau neu'r lle dwi'n byw
Rhagor o gyfleoedd creadigol i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi
Bydd digwyddiadau a chyfleoedd celfyddydol lleol yn Gymraeg a Saesneg
Artist neu weithiwr creadigol llawrydd dwi
Caf gefnogaeth drwy egwyddorion y contract diwylliannol yn fy ngwaith
Rhagor o gyfleoedd i weithio'n greadigol mewn sefyllfaoedd iechyd ac addysg
Datblygu cyfleoedd cynhwysol gyrfa ac arwain yn y celfyddydau
Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru
Ymgorfforir fy nghydraddoldeb a'm dewis iaith
Ni phrofaf anfanteision oherwydd fy amgylchiadau neu'r lle dwi'n byw
Bydd ymgeisio am grant yn symlach
Sefydliad celfyddydol neu grŵp cymunedol ydym ni
Ymgysylltwn yn ehangach a datblygwn bartneriaethau a chynulleidfaodd newydd
Ymgorfforwn gydraddoldeb a'r Gymraeg yn ein Bwrdd, ein gweithlu a'n rhaglenni o waith
Bydd ymgeisio am grant yn symlach
Bydd cyngor am yr Adolygiad Buddsoddi a'i weithgarwch yn ailddechrau
Ymrwymwn i'r Contract Diwylliannol
Bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy'n arwain sut y gweithiwn
Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru
Ein ffordd o weithio yn y dyfodol
Symlhau ein proses ymgeisio am grant i wneud popeth yn haws
Adeildau ein blaenoriaethau ar sail datblygiad cynaliadwy ac egwyddorion o gyfiawnder hinsoddol
Cyflawni yn ôl y targedau yn ein cynlluniau cyhoeddedig a'n Llythyr Cylch Gwaith
Datblygu a lansio Strategaeth i'r Gymraeg
Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ag anfantais sylweddol yn gymdeithasol-economaidd
Ymgynghori i ddeall heriau celfyddydol ac ôl-bandemig ac ymateb iddynt
Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd

# Mesur ein llwyddiant

Rydym yn ei wneud mewn nifer o ffyrdd:

- arolygu gweithgarwch ein sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn drwy well trefniadau adrodd;
- gwerthuso ar sail canlyniadau ac effaith mentrau a rhaglenni ariannu;
- ymgysylltu'n fwy â'r sector drwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb
- mentrau marchnata ac eiriol;
- adrodd am ein cynnydd i Lywodraeth Cymru, ein Cyngor a'i bwyllgorau;
- cyhoeddi adroddiadau blynyddol.



*Agor Drysau*, Arad Goch
(Llun: Helen Goepfert)

Isod mae enghreifftiau cyffredinol o sut rydym yn mesur ein llwyddiant.

| Maes | Mesur llwyddiant |
| --- | --- |
| **Datblygu'r celfyddydau**<br><br>**Blaenoriaethay i'r diwylliant:**<br>1.1 Pobl a chymunedau<br>1.2 Ymdeimlad o le<br>1.3 Pobl ifanc<br>1.4 Iechyd/lles<br>3.1 Lleoedd/ casgliadau diwylliannol<br>3.5 Gweithlu'r sector diwylliannol | Datblygu Strategaeth Gyfalaf newydd.<br><br>Cynyddu gwerthiant gwaith celf weledol a chymhwysol drwy ddarparu Ein Celf gyda Creative United.<br><br>Gwell seilwaith i'r rhwydwaith o orielau ar ôl buddsoddi cyfalaf.<br><br>Hybu a chefnogi cyfleoedd i'n cymunedau a'n pobl ifanc lunio a chynllunio eu profiadau celfyddydol.<br><br>Rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc a phlant brofi gweithgarwch creadigol a dysgu ohono yn yr ysgol a'r tu allan.<br><br>Rhagor o adnoddau i barhau â'n rhaglen, y Celfyddydau, Iechyd a Lles.<br><br>Rhagor o ddarpariaeth ac adnoddau i'n hymyriadau celfyddydol strategol i wella iechyd corff a meddwl pobl.<br><br>**Effaith**<br><br>Rhagor o arian ac adnoddau at seilwaith y sector gan gynnwys lleoliadau, orielau a theatrau i ddarparu rhagor o gyfleoedd a budd i'r cyhoedd.<br><br>Diogelu a chynnal gyrfa a bywoliaeth artistiaid drwy gynyddu gwerthiant gydag Ein Celf drwy Creative United.<br><br>Rhagor o gyfleoedd i'r cyhoedd brofi a mwynhau'n lleol drysorau cenedlaethol.<br><br>Rhagor o gyfranogi o'r celfyddydau, yn enwedig gan grwpiau a chymunedau sydd â llai o gysylltiad celfyddydol, drwy greu profiadau lleol ar y cyd.<br><br>Arwain a chydgynyrchu rhaglenni celfyddydol gan gymunedau a phobl sydd wedi'u grymuso i lunio a chreu eu celfyddydau a'u diwylliant.<br><br>Gwell cyfleoedd i ysgolion a phobl ifanc ddatblygu eu creadigrwydd a'u sgiliau creadigol a chymryd rhan yn y celfyddydau a'u profi drwy Ddysgu Creadigol estynedig.<br><br>Rhagor o bobl yn elwa ar brosiectau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y Celfyddydau, Iechyd a Lles. |

| Maes | Mesur llwyddiant |
| --- | --- |
| **Moderneiddio ein gwaith mewnol**<br><br>**Blaenoriaethau i'r diwylliant:**<br>1.4 Iechyd/lles<br>3.3 Grym digidol<br>3.4 Buddsoddi mewn ymchwil<br>3.6 Datblygu cynaliadwy | Ein gwaith yn fwy effeithiol, ein gwybodaeth yn gliriach a'n cyfleoedd ariannu'n haws i'w cael a'n cyfathrebu yn syml.<br><br>Gwerthuso ar sail canlyniadau a chasglu a dadansoddi data yn well am y gwaith rydym yn ei ariannu gan gynnwys prosiectau a grantiau.<br><br>Gwell cyfathrebu mewnol a mynediad haws i'n gwybodaeth a'n hadnoddau.<br><br>Gwell ffyrdd o weithio'n fewnol sy'n caniatáu i staff weithio'n fwy effeithiol a mesurau ar waith i gefnogi lles a gallu ein staff.<br><br>**Effaith**<br><br>Tystiolaeth o effaith ein gwaith, ein harian a'n nodau lles gan gynnwys iechyd a'r amgylchedd sy'n cefnogi nodau Llywodraeth Cymru o ran cydraddoldeb, y Gymraeg a chyfiawnder hinsawdd.<br><br>Casglu a dadansoddi data'n well a gwerthuso ar sail canlyniadau, deall yn well y newidiadau sy'n digwydd a defnyddio'r wybodaeth i lywio ein strategaeth.<br><br>Darparu gwefan ddwyieithog a hygyrch sy'n addas i'r diben gan annog pobl greadigol i ymgymryd â chyfleoedd a darllen am y gwaith rydym yn ei ariannu.<br><br>Defnyddio ein hadnoddau mewnol mor effeithiol â phosibl gan ganiatáu i staff weithio'n fwy effeithiol a chynnig rhagor o gefnogaeth lle bo ei angen drwy leihau baich y gwaith gweinyddol a fydd yn rhoi budd i'r sector drwy well cyfathrebu, cymorth a gwybodaeth. |

| Maes | Mesur llwyddiant |
|---|---|
| **Symleiddio ein grantiau**<br><br>Blaenoriaethau i'r diwylliant:<br>1.1 Pobl a chymunedau<br>3.5 Gweithlu'r sector diwylliant | Cefnogi ein sefydliadau newydd sy'n cael arian amlflwyddyn i gyflawni eu cynigion i hybu ein hamcanion strategol.<br><br>Casglu data i gael gwell golwg ar effaith ein celfyddydau a'i ddefnyddio i lunio gwaith yn y dyfodol.<br><br>Adolygu, symleiddio ac ail-lansio ein cyfleoedd ariannu a'n proses ymgeisio.<br><br>**Effaith**<br><br>Rhagor o atebolrwydd, tryloywder ac adrodd amserol gan sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn yn ôl yr ymrwymiadau yn eu cytundeb ariannu dan y 6 egwyddor inni allu adrodd yn well am eu cyfraniad at eu gwireddu.<br><br>Datblygu strwythur newydd drwy adolygu ein grantiau i foderneiddio ein gwaith mewn ymateb i sector sy'n wynebu pwysau ariannol sy'n arwain at ariannu mwy strategol, hygyrch ac effeithiol.<br><br>Targedu annhegwch daearyddol a demograffig gan roi cyfleoedd tecach i ymgeisio am ein harian. |

| Maes | Mesur llwyddiant |
|---|---|
| **Cyflawni ein hymyriadau strategol i gefnogi'r sector**<br><br>**Blaenoriaethau i'r diwylliant**<br>1.1 Pobl a chymunedau<br>1.3 Pobl ifanc<br>2.1 Dwyieithog ac amlieithog<br>2.2 Dathlu diwylliant<br>3.5 Gweithlu'r sector diwylliant<br>3.6 Datblygu cynaliadwy | Gwneud cynnydd sylweddol, drwy gyflawni ymrwymiadau strategol ein Hadolygiad Buddsoddi wrth lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth gan gynnwys meysydd fel y theatr, dawns a cherddoriaeth Saesneg.<br><br>Datblygu prosiectau, drwy fuddsoddi arian ac adnoddau a gweithio mewn partneriaeth a fydd yn creu cyfleoedd am gyflogaeth, mentora, ymgysylltu a mwynhau gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Parhau i weithio am gyflog teg, rhagor o sefydlogrwydd a chyfleoedd gyrfa a datblygiad i sefydliadau celfyddydol, artistiaid a gweithwyr creadigol.<br><br>Cefnogi a hybu mathau o gerddoriaeth a chrewyr sydd wedi cael llai o'n harian.<br><br>Cynnwys rhagor o leisiau pobl ifanc ym meysydd a strategaethau datblygu.<br><br>Cynnal sgyrsiau a rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i roi cefnogaeth a mentora gan bobl eraill yn y maes i ystyried ffyrdd o weithio a rhannu'r arferion gorau.<br><br>Cydweithio'n well ag awdurdodau lleol i wneud y celfyddydau'n hygyrch i ymarferwyr ac aelodau o'r gynulleidfa. |
| | **Effaith**<br><br>Argymhellion cytûn a chynnydd wrth lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer y theatr, dawns a cherddoriaeth Saesneg.<br><br>Celfyddydau mwy cynhwysol a chynrychioliadol o bawb drwy ein gwaith a'n cydweithio.<br><br>Newid ar draws y sector a chyfleoedd newydd a chynaliadwy i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan a gweithio ynddynt.<br><br>Rhagor o adnoddau cymorth busnes a hyfforddiant i sefydliadau i gefnogi trawsnewid a gwytnwch.<br><br>Gwell cyfleoedd drwy'r Gymraeg ar draws y sector i'r gynulleidfa a'r cyfranogwyr.<br><br>Rhagor o gyfleoedd am gefnogaeth, cydweithio a rhannu arferion da ar draws y sector sy'n arwain at ddarpariaeth fwy gwydn, cynaliadwy a ffyniannus o ran gweithio yn y celfyddydau a'u profi o ran sefydliadau, ymarferwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.<br><br>Cynnwys pobl ifanc yn natblygiad ein polisïau i sicrhau bod y celfyddydau i bawb, nawr ac i'r cenedlaethau wedyn. |

| Maes | Mesur llwyddiant |
|---|---|
| **Amrywiaeth a chynhwysiant**<br><br>Blaenoriaethau i'r diwylliant:<br>1.1 Cymunedau a phobl<br>1.2 Ymdeimlad o le<br>1.3 Pobl ifanc<br>2.1 Dwyieithog ac amlieithog<br>2.2 Hybu Cymru i'r byd | Cael cymunedau a rhanddeiliaid amrywiol i gymryd rhan yn ein holl waith i ddileu pob gwahaniaethu o ran nodweddion gwarchodedig.<br><br>Datblygu rhagor o gyfleoedd am gyrfaoedd cynaliadwy ac i ymgysylltu gan gynnwys i bobl ifanc a rhai o grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli gan gael mynediad at arian a chefnogaeth i greu a chyflwyno eu celf ar eu telerau eu hunain.<br><br>Cynyddu amrywiaeth aelodau o'r gynulleidfa a chyfranogwyr creadigol.<br><br>Lansio a datblygu blwyddyn 1 o'n cynllun, Cymraeg a'r Celfyddydau, gan hybu cynrychiolaeth o'r Gymraeg ar draws y sector gan gynnwys adnoddau, cyflogaeth a chanlyniadau creadigol.<br><br>Cyflawni'r ymrwymiadau blwyddyn 1 o'n strategaeth ryngwladol a chyfrannu at y Bartneriaeth Strategol Ryngwladol â Llywodraeth Cymru i gefnogi ei strategaeth ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu. Datblygu rhaglenni i'r rhanbarthau a gwledydd â blaenoriaeth gan gynnwys arwain ar gyflawni menter Gwybodbwynt Celf Prydain; Partneriaeth 4 gwlad Prydain gan gynnwys Cronfa Ryngwladol y 4 Gwlad a Chronfa Symudedd Gogledd Ewrop (gyda'r gwledydd Sgandinafaidd ac Iwerddon); cyflawni rhaglenni gan gynnwys cyngor am faterion rhyngwladol i'r sector; Llywodraeth a rhanddeiliaid rhyngwladol; cyfranogi mewn grwpiau o randdeiliaid. |

| Maes | Mesur llwyddiant |
|---|---|
| **Amrywiaeth a chynhwysiant** (parhad) | **Effaith**<br><br>Gosod democratiaeth ddiwylliannol wrth wraidd ein gwaith gan gynnwys ein gwaith ymgysylltu, ymgynghori a rhannu gwybodaeth â'n partneriaid, rhanddeiliaid, y sector a chymunedau.<br><br>Dileu'r rhwystrau i ymgysylltu, drwy wella'r ddarpariaeth a'r seilwaith, fel bod rhagor o bobl o bob cymuned a chefndir yn gallu profi'r celfyddydau a dewis eu gwneud yn rhan o'u bywyd.<br><br>Ailflaenoriaethu arian i'w ddosbarthu'n decach a chynnig cyfleoedd i ragor o bobl fyddar, anabl, niwroamrywiol ac ethnig a diwylliannol amrywiol i arwain y cynnig creadigol i'w cymunedau a datblygu eu talent greadigol.<br><br>Rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg lywio ein polisïau a'n penderfyniadau, gweithio yn y celfyddydau a chael cyfleoedd y tu allan i'r ysgol.<br><br>Canolbwyntio'n fwy ar y Gymraeg sy'n arwain at gyfleoedd newydd i bawb fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan a gweithio ynddynt gan annog rhagor o fewnbwn i ddatblygu gweithgarwch celfyddydol a'n polisïau ac annog siaradwyr o bob gallu.<br><br>Gwneud y celfyddydau yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol o bawb, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>Cefnogi mentrau i ddatblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru drwy gynyddu nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n gweithio yn y maes ac wrth lywodraethu ac arwain sefydliadau a Chyngor y Celfyddydau.<br><br>Gwneud cyfraniad clir at y nodau Llesiant drwy ein gwaith gartref a thramor.<br><br>Mesur ein buddsoddiad rhyngwladol yn ôl canlyniadau lles a'n 6 egwyddor a defnyddio'r wybodaeth wrth benderfynu'n strategol er mwyn i bawb weld yr effaith a'r newidiadau ac i ni allu addasu a gwella'r rhaglen. |

| Maes | Mesur llwyddiant |
|---|---|
| **Eiriol a dylanwadu**<br><br>**Blaenoriaethau i'r diwylliant:**<br>1.1 Pobl a chymunedau<br>1.2 Ymdeimlad o le<br>2.1 Dwyieithog ac amlieithog<br>2.2 Hybu Cymru i'r byd<br>3.1 Gofalu am ein lleoedd diwylliannol<br>3.6 Datblygu cynaliadwy | Cyflawni blwyddyn 1 o'n cynllun gweithredu cyfiawnder hinsawdd yn y celfyddydau.<br><br>Rhagor o ymgysylltu a sgyrsiau cenedlaethol i lywio ein cynlluniau ac effaith ein gwaith.<br><br>Cydweithio ag eraill i gydfuddsoddi mewn gwaith strategol i wneud y mwyaf o'n partneriaethau gwerth cyhoeddus.<br><br>Rhagor o fuddsoddi a chodi proffil ein celfyddydau.<br><br>Defnyddio astudiaethau achos, rhannu cynnydd ein hamcanion allweddol a hybu arferion da.<br><br>**Effaith**<br><br>Sicrhau cynaliadwyedd ymarfer creadigol nad yw'n niweidio ein planed na'r cenedlaethau i ddod drwy gyflwyno'r flwyddyn gyntaf o'n cynllun gweithredu cyfiawnder hinsawdd yn y celfyddydau.<br><br>Gwireddu cydamcanion ein partneru a'n cydweithio i gael rhagor o adnoddau mwy effeithiol i gael rhagor o effaith.<br><br>Rhagor o eiriol dros y celfyddydau drwy ddeialog gyson â rhanddeiliaid a chyhoeddi ystadegau'r sector fel tystiolaeth o werth y celfyddydau.<br><br>Buddsoddi'n fwy yn y celfyddydau drwy ragor o bartneriaethau a chysylltiadau ag arianwyr eraill.<br><br>Rhagor o atebolrwydd, tryloywder ac adrodd amserol am ein cynnydd a chyflawni ein nodau a'n 6 egwyddor drwy gynnig enghreifftiau o ymarfer artistig yn ein cyfathrebu a'r cyfryngau ehangach. |

# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Cymuned / Cymunedau** | Mae sawl ffordd o brofi a chreu cymuned. Mae'n grŵp penodol o bobl sy'n gysylltiedig: yn ddaearyddol, drwy hunaniaeth neu ddiddordeb neu arfer arbennig. |
| **Dysgu Creadigol [Cymru]** | Mae'n cefnogi athrawon i archwilio a datblygu dulliau newydd o gynllunio cwricwlwm yr ysgol drwy roi'r celfyddydau a chreadigrwydd wrth wraidd addysg. Dysgu Creadigol Cymru yw enw'r rhaglen. |
| **Democratiaeth ddiwylliannol** | Yr economegydd-athronydd, Amartya Sen, a'r athronydd, Martha Nussbaum, sydd wedi bathu'r term fel rhan o'u ffordd o ystyried gallu. Yn eu hôl, mae gallu yn 'rhyddid pobl i gyflawni eu gobeithion a thyfu'n bobl yr hoffent fod'. Rhaid inni feddu ar y gwir gyfle i gyflawni hynny ac nid yn unig y rhyddid i ymgymryd â'r cyfle. Roedd y damcaniaethwr llenyddol a'r nofelydd o Gymru, Raymond Williams, hefyd wedi datblygu'r syniad o ddemocratiaeth ddiwylliannol.<br><br>Mae'n golygu bod gan bobl y rhyddid a'r gallu i greu fersiynau o ddiwylliant sy'n cael eu mynegi a'u dathlu mewn ffordd deg a democrataidd. Mae'n meddwl bod pawb yn rhanddeiliaid cyfartal yn ein diwylliant, pwy sy'n ei brofi a'i greu a lle mae'n digwydd. |
| **Ethnig a diwylliannol amrywiol** | Rydym wedi dewis y term yma am ein bod yn credu ei fod yn cyfleu'r ehangder yr ystod yn well na thermau eraill.<br><br>Drwy gyfuno diwylliant ac ethnigrwydd, mae'n dangos sut maent yn cydblethu a chroestorri gan ffurfio hanfod ein hunaniaeth fel pobl. |

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Buddsoddi (2023)** | Dyma'r broses o benderfynu sut i ddosbarthu'r £29.6 miliwn o arian y cyhoedd i'n gwahanol sefydliadau celfyddydol. Mae ariannu sefydliadau'n amlflwyddyn yn ffordd bwysig o gefnogi'r celfyddydau a gwireddu blaenoriaethau ein cynllun strategol. Roedd yr arian yn dod o gymorth grant Llywodraeth Cymru ac arian y Loteri Genedlaethol. |
| **Profiad byw** | Mae'n derm cynyddol boblogaidd sy'n disgrifio profiadau a dewisiadau pobl a sut rydym yn byw drwyddynt ac ymateb iddynt.<br><br>Mae'n ymgais i ddeall y gwahaniaethau rhwng bywyd a phrofiad gan archwilio pam a sut rydym yn ystyried rhai'n well nag eraill.<br><br>Mae'n dod drwy gyfranogi'n uniongyrchol o ddigwyddiadau, sefyllfaoedd neu brofiadau penodol yn hytrach na chlywed am brofiadau gan bobl eraill.<br><br>Mae'n arbennig o arwyddocaol wrth archwilio'r sut rydym yn llunio profiadau a'r dylanwadau arnynt drwy bolisïau, ein cymdeithas a'r byd o'n cwmpas.<br><br>Mae'n meddwl bod pobl â phrofiad byw'n meddu ar y wybodaeth, yr amgyffred a'r safbwynt unigryw sy'n fodd i gynyddu tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. |
| **Llais y Lle** | Dyma gronfa gan y Cyngor i rymuso artistiaid i gydweithio â chymunedau penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac ehangu'r berchnogaeth arni. |

## Niwroamrywiol

Judy Singer (cymdeithasegydd o Awstralia yn y 1990au) sydd wedi bathu'r term. Mae'n annog pobl i weld gwahaniaethau niwroddatblygiadol fel rhai naturiol. Mae rhai pobl yn dysgu pethau mewn ffyrdd gwahanol neu'n byw mewn ffordd wahanol yn niwrolegol.

Mae hefyd yn cyfeirio at y gwahaniaethau anferth yn y ffyrdd mae pobl yn meddwl. Mae gan bawb feddwl unigryw gyda galluoedd ac anghenion gwahanol. Niwroamrywiol felly yw'n holl gymdeithas.

Mae'n naturiol a dylid ei barchu. Mae'n bwysig o ran archwilio materion cymdeithasol a chadw ein hamrywiaeth. Mae'n gategori cymdeithasol yn yr un ffordd â rhyw, ethnigrwydd a dosbarth cymdeithasol.

Nid oes un ffordd gywir o feddwl, dysgu ac ymddwyn. Rhaid dathlu'r gwahaniaethau a pheidio â gweld amrywiaethau'n ddiffygion.

## Cyfiawnder cymdeithasol

Ei nod yw creu cymdeithas deg lle mae gan bawb hawliau, cyfleoedd a mynediad cyfartal at adnoddau, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hunaniaeth. Mae'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn.

## Model cymdeithasol o anabledd

Mae'n dweud bod pobl yn cael eu gwneud yn anabl gan rwystrau cymdeithasol ac nid gan eu nam neu eu cyflwr. Mae'r rhwystrau'n gallu bod yn gorfforol (mynediad gwael i adeiladau), agweddau, cyfathrebu ac arferion sefydliadol. Mae eu dileu'n creu cydraddoldeb a meithrin annibyniaeth, dewis ac ymreolaeth i bobl anabl. Mae'r model wedi'i ymgorffori ym mholisi Llywodraeth Cymru. Rydym yn ei gefnogi i'r carn ac o'r farn mai ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb y sefydliadau rydym yn eu hariannu yw dymchwel y rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag profi'r celfyddydau'n llawn a chyflawni eu potensial.

## Ymyriadau/ymrwymiadau strategol

Dyma'r camau roeddem wedi penderfynu arnynt drwy ein Hadolygiad Buddsoddi yn 2023 i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth o ran y celfyddydau, cyfleoedd neu leoedd ar hyd a lled Cymru. Rydym yn ymrwymedig i'w gwireddu felly.

## Strategaeth/cynllun strategol

Dyma'r fframwaith ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd, ein hegwyddorion a'n hymrwymiadau nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn adolygu a newid yn gyson ein strategaeth a sut rydym yn ei gwireddu gan fesur y cynnydd drwy ein cynlluniau blynyddol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cynllun Blynyddol 2025-26

celf.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®